PENNAL 2050

Cylchlythyr 17

# LLYTHYR PENNAL – BUDDSODDWCH YN EIN HWB NEWYDD

**MAE ein chwaer grŵp cymunedol, Menter y Glan wedi lansio cynnig siars i achub bwyty ac adeilad Glan yr Afon (Riverside) er budd trigolion yr ardal a chenedlaethau'r dyfodol. Yr amcan yw datblygu hwb gwerth £1.25m gyda siop a llety.**

Cymdeithas er Budd y Gymuned yw Menter y Glan grewyd gan bobl lleol i sicrhau a gwarchod dyfodol y dafarn hanesyddol restredig Gradd II. Mae prosbectws ar gyfer y cynnig siars a chynllun busnes wedi'i ddatblygu ynghyd ag ymchwil i grantiau. Lansiwyd y cynnig siars ar 7 Gorffennaf 2022, pan ddaeth rhaglen HENO S4C draw i ffilmio o gwmpas y pentref a darlledu cyswllt fideo o'r UD â'r actor Cymraeg, Matthew Rhys Evans, sydd yn cefnogi'r fenter ac â pherthnasau yn byw ym Marchlyn.

Dywed Meirion Roberts, cadeirydd Menter y Glan: "Diolch i bawb fu'n gweithio mor galed i wireddu'r fenter hon. Mae'r ymateb cynnar i'n fersiwn fodern o 'Lythyr Pennal' (cais Owain Glyndwr i frenin Ffrainc am gefnogaeth i'w Gymru annibynnol yn 1406) wedi bod yn dda iawn a gobeithiwn godi £250,000. Lleiafswm daliad unigolyn yw £100 a'r uchafwm yn £50,000 gyda phob buddsoddwr yn berchen un bleidlais".

Bu plant Ysgol Pennal yn diddannu'r rhai ddaeth i'r lansiad amser cinio gyda chân rap ysgrifennwyd ganddynt am yr ardal, yn sôn am Glan yr Afon a phrosiect Pennal 2050. Gallwch ddarganfod mwy am fod yn rhan o'r cynnig siars ar wefan www.menteryglan.cymru

DE: Meirion Roberts yn esbonio'r cynnig siars yn ystod y lansiad. ISOD: Plant yr ysgol yn canu'r gân gyfansoddwyd ganddynt mewn gweithdy gyda'r bît-bocsiwr Cymreig, Ed Holden, alias Mr Phormula.





Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

www.croesopennal.cymru
pennalpartners@aol.com

# PENNAL 2050

## Newsletter 17

# PENNAL LETTER – PLEASE INVEST IN OUR NEW HUB

**OUR sister community group Menter y Glan has launched its share offer to save the Glan yr afon (Riverside) restaurant and building for the benefit of those living in the area and for future generations. The aim is to develop a £1.25m hub with shop and accommodation.**

**Menter y Glan is a community benefit society, created by local people, to secure and safeguard the future of this historic Grade II listed Inn. A prospectus for the share offer and a business plan has been developed and grants explored. The share offer was launched at Glan yr afon on July 7, 2022 attracting coverage by S4C's Heno programme. Filming was carried out around the village and a video call was held with Welsh actor Matthew Rhys Evans in the US, who is supporting the venture, and whose relations live at Marchlyn.**

**Menter y Glan chair Meirion Roberts says: "Thanks to all those who have worked so amazingly hard to get this off the ground. The initial response to our modern version of the Pennal Letter (a plea by Owain Glyndwr in 1406 to the King of France for support for an independent Wales) has been very good and we hope to raise £250,000.There's a minimum shareholding per person of £100 and maximum £50,000 with each investor getting one vote".**

**Ysgol Pennal pupils entertained the share launch attendees with a rap song they had written about the area, mentioning Glan yr afon and the Pennal 2050 project. You can find out more about taking part in the share offer at www.menteryglan.cymru**

**RIGHT: Meirion Roberts explains the share offer at the launch. BELOW: Welsh beat-boxer Ed Holden (aka Mr Phormula) ran a workshop with pupils who then performed their song at the event.**





Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**www.visitpennal.wales**
**pennalpartners@aol.com**